Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

14 Chwefror 2020

Annwyl Lesley a Julie,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig ddoe i roi tystiolaeth i lywio ein hymchwiliad ynghylch tlodi tanwydd.

Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch chi gytuno i roi ymateb ysgrifenedig i gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn oherwydd prinder amser:

Y sector rhentu preifat

1. Beth yw eich barn ar yr awgrym gan randdeiliaid y dylid cynyddu'r safon effeithlonrwydd ynni isaf (MEES) ar gyfer y sector rhentu preifat o Fand E EPC i Fand C EPC (neu'n uwch)?

2. Heblaw am MEES a'r Rhaglen Cartrefi Cynnes, pa drefniadau sydd ar waith i annog a/neu gymell landlordiaid preifat i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo?

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth a/neu eglurhad gennych ynghylch y canlynol:

Monitro a gwerthuso Strategaeth 2010

3. Roedd Strategaeth 2010 yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer y strategaeth. A yw hyn wedi digwydd?

Ardaloedd gwledig

4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil drud, fel olew, mewn ardaloedd gwledig? Sut ydych chi'n cefnogi aelwydydd sy'n methu cael mynediad at brif gyflenwad nwy i allu manteisio ar opsiynau gwresogi fforddiadwy amgen?

Capiau gwariant

5. A allwch chi egluro a allai gwariant ar welliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwyd o dan Nyth ac Arbed fod yn uwch na'r capiau gwariant y cytunwyd arnynt, a sut hynny? A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw achosion lle nad yw prosiectau neu aelwydydd wedi gallu bwrw ymlaen oherwydd eu bod wedi mynd heibio'r capiau gwariant?

Datgarboneiddio

6. Ailosod boeleri yw mwyafrif yr ymyriadau o dan Nyth. A ydych chi'n poeni ynghylch pa mor gydnaws yw hyn â'ch uchelgeisiau datgarboneiddio?

Gwasanaeth cynghori mewnol

7. A allwch chi ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth cynghori mewnol sydd ar gael drwy Nyth, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth hwn ar gael ac yn cael ei ddefnyddio?

Fe wnaethoch chi hefyd gytuno i ddarparu mwy o fanylion am y canlynol:

- Prosiectau sy'n ymwneud â phrynu ynni'n glyfar, sy'n digwydd drwy'r Rhaglen Tai Arloesol;
- Rhestr o eithriadau o'r gwaharddiad ar landlordiaid preifat yn gosod eiddo sydd â sgôr Band F neu G EPC.
- Nifer yr eiddo yn y sector rhentu preifat yng Nghymru na fydd modd eu gosod o dan Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhentu Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 ar ôl 1 Ebrill 2020.
- Awdurdodau lleol sy'n cyfuno grantiau i dalu cost gwaith galluogi fel bod modd gosod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, a phryd y bydd gwersi sy'n cael eu dysgu o'r dull gweithredu hwn ar gael.
-

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **dydd Gwener 21 Chwefror** fan bellaf.

Yn gywir,

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.